Alistair Davey *MA Chartered FCIPD*
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Social Services and Integration Directorate
Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Department for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid Gwasanaethau Plant

Cc: Prif Weithredwyr

31 Mawrth 2023

Annwyl Gydweithwyr,

LLEOLI PLENTYN O DAN 13 OED MEWN CARTREF DIOGEL I BLANT

Fel y gwyddoch, mae'n rhaid i awdurdod lleol sydd am leoli plentyn o dan 13 oed mewn cartref diogel i blant sicrhau cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ymlaen llaw.

Mae'r llythyr hwn yn eich atgoffa o'r broses i'w dilyn. Mae'n nodi:

- Yr amgylchiadau pan fo rhaid sicrhau cymeradwyaeth
- Y gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion o'r fath
- Manylion cyswllt y swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru

Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru cyn lleoli plentyn o dan 13 oed mewn llety diogel. Mae hyn yn berthnasol i leoliadau yng Nghymru (yng Nghartref Diogel i Blant Hillside) a fydd yn cael eu gwneud o dan adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal â lleoliadau y tu allan i Gymru a fydd yn parhau i gael eu gwneud o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989 (ar gyfer lleoliadau yn Lloegr), ac o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys ynghyd â gorchymyn cyfatebol gan Lys y Sesiwn yn yr Alban o dan y "nobile officium" (ar gyfer lleoliadau yn yr Alban).

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar y broses o sicrhau cymeradwyaeth yng Nghod Ymarfer Rhan 6, pennod 7 (tudalennau 133-142). Mae'r adran berthnasol o'r cod ar gael yma.

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 02920 823320
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae'r fath gais yn digwydd, fel rheol:

- pan fo plentyn â hanes o ddianc, a bod yr awdurdod lleol yn ystyried bod y plentyn yn debygol o ddianc o unrhyw fathau eraill o lety, a'i fod yn debygol o ddioddef niwed sylweddol os bydd yn gwneud hynny; neu
- pan fo'r awdurdod lleol o'r farn y byddai'r plentyn yn debygol o niweidio'i hun neu eraill pe byddai'n cael ei leoli mewn unrhyw fathau eraill o lety (adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 / adran 25 o Ddeddf Plant 1989).

(Addasir y prawf hwn mewn perthynas â phlant sydd rhwng 12 a 16 oed sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Gweler rheoliad 15 o Reoliadau 2015 / rheoliad 6 o Reoliadau 1991).

O dan God Ymarfer Rhan 6, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau cymeradwyaeth bellach gan Weinidogion Cymru os ydynt angen dychwelyd i'r llys er mwyn ymestyn cyfnod y lleoliad diogel, a bod y plentyn yn parhau i fod o dan 13 oed.

Cysylltiadau

Yn ystod oriau gwaith arferol, dylid cysylltu ag un o'r canlynol:

1. Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl: ffôn: 03000 256319 / 07501 596840, e-bost Alistair.Davey@llyw.cymru

2. David Sargent, Gwella Canlyniadau; ffôn: 03000 250525 / 07772 139999, e-bost David.Sargent@llyw.cymru

3. Penny Hall, Gwella Canlyniadau: ffôn: 03000 253095, e-bost Penny.Hall@llyw.cymru

Bydd gofyn ichi ddarparu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cod a byddwn yn cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn cael barn broffesiynol ynghylch yr achos cyn y gellir llunio llythyr cymeradwyaeth. Mae'n debygol y bydd AGC yn cysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn trafod amgylchiadau'r achos.

Tu allan i oriau

Mewn amgylchiadau eithriadol pan fo angen sicrhau cymeradwyaeth mewn argyfwng, er enghraifft tu allan i oriau (17:30 i 08:30), neu yn ystod y penwythnos

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 02920 823320
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@wales.gsi.gov.uk

neu ar ŵyl y banc, cysylltwch ag Alistair Davey ar 07501 596840 neu David Sargent ar 07772 139999.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw'r gweithwyr perthnasol yn eich awdurdod lleol at gynnwys y llythyr hwn (gan gynnwys y gweithdrefnau sydd yn y cod).

Yn gywir,

Alistair Davey *MA Cymrawd Siartredig o'r CIPD*
Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Is-adran Galluogi Pobl

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 02920 823320
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 02920 823320
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@wales.gsi.gov.uk